

Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Caerfyrddin

Diweddariad Chwarterol: 30 Medi 2022

Crynodeb Archwilio Blynyddol

Disgrifiad	Amserlen	Statws
Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.	Ionawr 2022	Cyhoeddi adroddiad

Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwaith Archwilio Ariannol 2020-21			
Archwilio datganiad o gyfrifon 2020-21 y Cyngor	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Ionawr 2021 i Fedi 2021	Archwiliad wedi'i gwblhau. Datganiad o Gyfrifon wedi eu llofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 27 Medi 2021.

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwaith Archwilio Ariannol 2020-21			
Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2020-21 y Cyngor Pensiwn	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Ionawr 2021 i Hydref 2021	Archwiliad wedi'i gwblhau. Datganiad o Gyfrifon Iofnodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 19 Hydref 2021.
Archwiliad Ffurflen 2020-21 ar gyfer Harbwr Porth Tywyn	Cadarnhau bod y datganiad wedi'i chwblhau'n gywir.	Ionawr 2021 i Hydref 2021	Archwiliad wedi'i gwblhau. Ffurflen wedi'i harchwilio wedi'i llofnodi Medi 2021.
Archwilio Ffurflen 2020-21 Partneriaeth Pensiwn Cymru	Cadarnhau bod y datganiad wedi'i chwblhau'n gywir.	Ionawr 2021 i Orffennaf 2021	Archwiliad wedi'i gwblhau. Ffurflen wedi'i harchwilio wedi'i llofnodi Gorffennaf 2021.
Archwilio Datganiad Cyfrifon 2020-21 Bargen Ddinesig Bae Abertawe	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Ionawr 2021 i Orffennaf 2021	Archwiliad wedi'i gwblhau. Datganiad o Gyfrifon Iofnodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2021.
Gwaith Archwilio Hawliad Grantiau 2020-21	Archwilio hawliadau yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau.	Yn unol â'r terfynau amser unigol ar gyfer pob cais am grant.	Gwaith archwilio wedi'i gwblhau.

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwaith Archwilio Ariannol 2021-22			
Archwilio datganiad o gyfrifon 2021-22 y Cyngor	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Ionawr 2022 i Dachwedd 2022	Gwaith archwilio yn mynd rhagddo.
Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2021-22 y Cyngor Pensiwn	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Ionawr 2022 i Dachwedd 2022	Gwaith archwilio yn mynd rhagddo. Cyfrifon archwilio i'w harwyddo Tachwedd 2022.
Archwiliad Ffurflen 2021-22 ar gyfer Harbwr Porth Tywyn	Cadarnhau bod y datganiad wedi'i chwblhau'n gywir.	Ionawr 2022 i Dachwedd 2022	Gwaith archwilio yn mynd rhagddo. Ffurflen wedi'i harchwilio i'w harwyddo Tachwedd 2022.
Archwilio Ffurflen 2021-22 Partneriaeth Pensiwn Cymru	Cadarnhau bod y datganiad wedi'i chwblhau'n gywir.	Ionawr 2022 i Orffennaf 2022	Archwiliad wedi'i gwblhau. Ffurflen wedi'i harchwilio wedi'i llofnodi 29 Gorffennaf 2022.

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwaith Archwilio Ariannol 2021-22			
Archwilio Datganiad Cyfrifon 2021-22 Bargaen Ddinesig Bae Abertawe	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Ionawr 2022 i Orffennaf 2022	Archwiliad wedi'i gwblhau. Datganiad o Gyfrifon lofnodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 29 Gorffennaf 2022.
Gwaith Archwilio Hawliad Grantiau 2021-22	Archwilio hawliadau yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau.	Yn unol â'r terfynau amser unigol ar gyfer pob cais am grant.	Gwaith archwilio oedd i fod i ddechrau Tachwedd/Rhagfyr 2022.

Gwaith archwilio perfformiad

Gwaith archwilio perfformiad 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf LICD)	<p>Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau o dan LICD o'r camau i gyflawni amcanion lles ynghyd â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r Cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn.</p>	Amherthnasol	Amherthnasol
Archwiliad adrodd ar welliannau	<p>Archwilio cyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.</p>	Tachwedd 2021	Cyflawn

<p>Sicrwydd as Aseu Risg</p>	<p>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.</p> <p>Yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefyllfa ariannol • Trefniadau hunanasesu • Cynllunio adferiad • Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) • Cynlluniau i leihau carbon <p>Byddwn hefyd yn ymchwilio i rai o'r cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn adroddiadau cynharach Archwilio Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad Dilynol: Trosolwg a Chraffu sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol. 	<p>Ebrill 2021 – Tachwedd 2022</p> <p>Gwaith maes yn mynd rhagddo.</p> <p>Cyhoeddwyd adroddiad terfynol i'r Cyngor ym mis Awst 2022</p> <p>Cyhoeddwyd adroddiad terfynol i'r Cyngor ym mis Medi 2022</p> <p>Adroddiad a gyhoeddwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2022</p>	<p>Cyflawn</p> <p>Cyflawn</p>
-------------------------------------	--	--	-------------------------------

Gwaith archwilio perfformiad 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p>Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy</p>	<p>Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.</p>	<p>Hydref 2021 – Mai 2022</p>	<p>Cyflawn – dau adroddiad a gyhoeddwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2022 (asedau a gweithlu).</p>

Gwaith archwilio perfformiad 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Adolygiad Thematig – Gofal heb ei Gynllunio	Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion, yn ogystal ag atal mynd i mewn i'r ysbyty. Bydd y gwaith yn ystyried hefyd pa gamau a gymerir i ddarparu datrysiadau tymor canol i hir.	Awst 2022 – Chwefror 2023	Gwaith maes
Adolygiad thematig – Digidol	Mae'r prosiect hwn yn cael ei gwmpasu ac mae manylion ychwanegol am bwylais penodol yr adolygiad i'w cadarnhau.	I'w gadarnhau	Cwmpasu

Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Caerfyrddin
Tlodi	Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi.	Hydref 2021 – Hydref 2022	Clirio – cyhoeddi Hydref 2022.	Oes – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor.
Mentrau Cymdeithasol	Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau	Hydref 2021 – Hydref 2022	Clirio – cyhoeddi Tachwedd 2022.	Do – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor.
Meithrin Cydnerthedd Cymdeithasol a Hunanddibyniaeth	Adolygu sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau	Hydref 2021 – Hydref 2022	Drafftio'r adroddiad.	Do – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor.
Diogelwch adeiladau	Adolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelwch adeiladau	Medi 2022 – Awst 2023	Cychwyn prosiect.	Do – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Caerfyrddin
Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy– Adfywio Tir Ilwyd	Adolygu sut mae awdurdodau lleol yn hybu ac yn galluogi gwell defnydd o anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd	Hydref 2022 – Medi 2023	Datblygu'r prosiect.	Do – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor
Cyd-bwyllgorau Corfforedig	Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol.	Medi 2022 – Ionawr 2023	Paratoi gwaith maes.	Ydym – Rydym yn archwilio safbwynt y Cyngor trwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol. Mae'r gwaith maes yn cynnwys cyfweiliadau gyda'r prif weithredwr, cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Estyn

Gwaith arfaethedig Estyn 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Gwnaeth Estyn archwilio gwasanaethau addysg llywodraeth leol Ynys Môn ac Abertawe yn ystod tymor yr haf. Cafodd yr adroddiadau eu cyhoeddi ym mis Awst a dechrau Medi. Fe wnaeth Estyn gynnal cynhadledd gwella ôl-arolygu yn Nhorfaen ym mis Medi a bydd yn monitro awdurdod lleol Sir Benfro ddechrau Mis Hydref. Mae Estyn wedi diweddarau'r canllawiau arolygu er mwyn adlewyrchu mwy o bwyslais ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac annhegwch ac i wneud mân newidiadau mewn ymateb i adborth arolygiadau yn 2021-22.	Adolygiad o'r canllaw arolygu – Gorffennaf. Cyhoeddwyd ar y wefan Medi 1.	Amh.
Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm	Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i Estyn adolygu gwasanaethau gwella ysgolion y de-orllewin.	Casglu tystiolaeth ym mis Mehefin/Gorffennaf – cyflwyno canfyddiadau i Lywodraeth Cymru ym mis Medi.	Amh.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Rhaglen 2022-23	Rydym yn parhau i brofi a gwerthuso ein dull wedi'i adfywio – gan gynnwys gwiriadau sicrwydd, gwiriadau gwella, ac arolygiadau gwerthuso perfformiad (PEIs). Bydd hyn yn arwain at fframwaith gweithredu diwygiedig ar gyfer archwilio a chod ymarfer diwygiedig.	Ebrill 2022 – Mawrth 2023	Ar waith
Gwaith ar y cyd	<p>Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan rannu gwybodaeth a deallusrwydd gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd.</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y cyd ag AGIC ar adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc ac archwiliadau CMHT.</p>	Cyfredol	Ar waith
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22	Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 2020-21, mae cynllunio ar y gweill ar gyfer cadarnhau dyddiad cyhoeddi'r adroddiad nesaf.	Cyhoeddi i'w gadarnhau	Drafftio/casglu data.
Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol	Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023	Cynllunio

Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p>Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n destun rhag-achosion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus</p>	<p>Diben yr adolygiad</p> <p>Darparu gwaith craffu allanol, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion amlinelliad cyfraith cyhoeddus.</p> <p>Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys arweiniad i arfer gorau.</p>	Medi 2022	Cynllunio/ arolygu
<p>Trefniadau Cyd-arolygiad Diogelu Plant</p>	<p>Dull traws-arolygiaeth. Meysydd i'w penderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad ar y cyd aml-asiantaeth arall.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol tuag at ddiwedd 2023.</p>	Hydref 2022 – Gwanwyn 2023	Cynllunio

Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwiriad Sicrwydd Cafcass	<p>Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu Cafcass Cymru. Rydym wedi cyhoeddi ei lythyr gwirio sicrwydd cyntaf.</p> <p>Byddwn yn gwerthuso ein dull gweithredu a byddwn yn ymgynghori ar ein dull diwygiedig ddiwedd 2022. Bydd hyn yn arwain at fframwaith gweithredu diwygiedig i'w harchwilio a'r cod ymarfer.</p>	Medi – Rhagfyr 2022	Cynllunio

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers Ionawr 2022

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?	Medi 2022
Llywodraeth Cymru – pennu amcanion llesiant	Medi 2022
Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru	Medi 2022
Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at Fawrth 2022	Awst 2022

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 Adroddiad Tystiolaeth	Awst 2022
Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030	Gorffennaf 2022
Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru	Gorffennaf 2022
Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	Gorffennaf 2022
System Wybodaeth Gofal yn y Gymuned Cymru – diweddariad – diweddariad	Gorffennaf 2022
Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad Gofal Arfaethedig yng Nghymru – ac offeryn data amseroedd aros	Mai 2022
Y Cwricwlwm newydd i Gymru	Mai 2022
Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth	Ebrill 2022
Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Ebrill 2022
Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol	Chwefror 2022

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri'r adroddiad
Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data)	<u>Ionawr 2022</u>

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)¹

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Sylwebaeth cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21 ²	Medi/Hydref 2022
Trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol	Hydref 2022
Y Fenter Twyll Genedlaethol (adroddiad cryno)	Hydref 2022
Gwaith dilynol ar seibrgadernid (dysgu o ymosodiadau seibr)	Hydref 2022
Rheoli perygl llifogydd	Tachwedd 2022
Gwasanaethau orthopedig	Tachwedd 2022
Llywodraethu ansawdd yn y GIG	Tachwedd 2022
Cynhwysiant digidol	Tachwedd/Rhagfyr 2022

¹ Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn i ni allu ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posib i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Ar 22 Medi, cyhoeddwyd erthygl i'n gwefan yn rhoi diweddariad am ddatblygiad rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn dilyn ein hymgyngoriad yng ngwanwyn 2022. Byddwn ni'n dod â pheth gwaith newydd ychwanegol i'n rhaglen yn ystod gweddill 2022-23.

² I gynnwys sylwebaeth ar faterion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol a chymorth busnes COVID-19.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwylidig
Tai fforddiadwy	I'w gadarnhau

Digwyddiadau ac adnoddau Cyfnewid Arfer Da

Teitl	Dolen i'r adnodd
Mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru: ymateb i'r her – bydd y digwyddiad dysgu a rennir hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth am sut gall sefydliadau ymateb i'r heriau a achosir gan dlodi. Byddwn yn rhannu enghreifftiau o ddulliau sy'n cael eu cymryd gan sefydliadau yng Nghymru a ledled y DU.	Mynd i'r Afael â Thlodi: Digwyddiad Caerdydd Mynd i'r Afael â Thlodi: Digwyddiad Conwy
Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol – gweminar sy'n trafod ein hadroddiad ar ddarpariaeth taliadau uniongyrchol a sut y gallant fod yn rhan allweddol wrth weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	Recordiad gweminar Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol
Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru – gweminar yn trafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n hadolygiad sylfaenol o drefniadau cyrff cyhoeddus i ymateb i dargedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.	Recordiad Ymateb i Argyfwng Hinsawdd Cymru
Safbwyntiau Covid – cyfres o sgysiaau wedi'u recordio yn dysgu sut mae sefydliadau wedi addasu i'r cyfnod	Safbwyntiau Covid: Ymgysylltu a Chyfathrebu

estynedig o ansicrwydd yn dilyn cyfnod cychwynnol argyfwng COVID.

Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

Teitl	Cyhoeddiad
Costau byw a rhoi'r fidog i gadw	21 Medi 2022
Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd	18 Awst 2022
Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru	15 Mehefin 2022
Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru – System o dan bwysau gwirioneddol.	21 Ebrill 2022
Cystadleuaeth Sgiliau Cymru	18 Chwefror 2022
Seibergadernid – blwyddyn ymlaen	9 Chwefror 2022
Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol)	3 Chwefror 2022
Galwad am wybodaeth gliriach yn glŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd	2 Chwefror 2022
Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau)	14 Ionawr 2022

